

Fersiwn Ddrafft o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol

Is-ddeddfwriaeth arfaethedig o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

Ffurflen Ymateb Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

e-bost / rhif ffôn: rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad:
UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid anfon ymatebion erbyn 22 Mawrth 2019 i:

Tîm Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol
Is-adran Cefnogaeth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu llenwch y ffurflen yn electronig a'i hanfon i:

e-bost: SENreforms@gov.wales

Gofynnir cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori hon sy'n cwmpasu ystod eang o faterion yn ymwneud â'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a'r rheoliadau arfaethedig.

Atgoffir ymatebwyr mai dim ond i'r cwestiynau hynny yn yr ymgynghoriad sydd o ddiddordeb iddynt neu sy'n berthnasol iddynt y mae angen iddynt ymateb. Mae Llywodraeth Cymru'n gwerthfawrogi'r amser a dreulir a'r cyfraniadau gan bob un o'r rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd sy'n cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried yn ofalus gan Lywodraeth Cymru a byddant yn cael eu defnyddio i fireinio a llywio'r Cod a'r rheoliadau terfynol.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:



Rhan 1 o'r ymgynghoriad: Y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY

Pennod 1 - Cyflwyniad

Ystyr 'rhaid', 'ni chaiff', 'caiff', 'dylai' ac 'ni ddylai' yn y Cod ADY

Cwestiwn 1 - Ydy'r esboniad ym mharagraffau 1.10 -1.16 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY o ddefnydd ac ystyr y gwahanol dermau rhaid, ni chaiff, caiff, dylai ac ni ddylai yn glir?

Ydy	☒	Nac ydy	☐	Ddim yn siŵr	☐
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Amserlenni

Cwestiwn 2 - Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu cyffredinol mewn perthynas ag amserlenni ar gyfer cydymffurfio â dyletswyddau (hynny yw, gweithredu'n brydlon a, ph'un bynnag, o fewn cyfnod penodol), fel yr eglurir ym mharagraffau 1.31 - 1.32 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY?

Ydw	☒	Nac ydw	☐	Ddim yn siŵr	☐
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Cwestiwn 3 - Ydy'r eithriad cyffredinol sy'n gymwys yn achos amserlenni, fel y'i disgrifir ym mharagraffau 1.33-1.35 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, yn briodol?

Ydy	☒	Nac ydy	☐	Ddim yn siŵr	☐
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Cytunwn, ond bydd angen bod yn glir ac yn gyson ynghylch yr hyn a ganiateir ai peidio dan y pennawd 'amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth'.

Derbyniwn nad oes modd diffinio hynny yn y Cod ei hun oherwydd ehangder ac amrywiaeth yr amgylchiadau posib, a chytunwn â'r rhesymeg ym mharagraff 1.8 o'r ddogfen ymgynghorol ynghylch peryglon ceisio rhestru eithriadau/amgylchiadau o'r fath.

Croesawn y pwyslais ar amgylchiadau 'eithriadol', a'r angen i weithredu'n brydlon unwaith y bydd yr amgylchiadau eithriadol hynny wedi newid; mae'r enghreifftiau a roddir yn gymorth i ddehongli natur yr amgylchiadau eithriadol hyn.

Fodd bynnag, bydd angen sicrhau gofal wrth weithredu, a hoffem gael sicrwydd nad yw diffyg gwasanaeth yn y Gymraeg, neu 'aros am gyfieithu' yn dod dan bennawd 'eithriad' yn y cyd-destun hwn.

Strwythur y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY

Cwestiwn 4 - Ydy strwythur y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a'r modd mae'r Penodau wedi'u rhannu yn briodol, yn glir ac yn hawdd ei ddeall?

Ydy	☒	Nac ydy	☐	Ddim yn siŵr	☐
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Cwestiwn 5 - Ydy ffocws y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar ddisgrifio ac egluro'r swyddogaethau a phrosesau yn briodol?

Ydy	☒	Nac ydy	☐	Ddim yn siŵr	☐
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Unedau Cyfeirio Disgyblion - Rheoliadau arfaethedig i'w gwneud o dan Baragraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg 1996

Cwestiwn 6 - Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ddefnyddio rheoliadau i ddirprwyo swyddogaethau o awdurdod lleol i Bwyllgor Rheoli Uned Cyfeirio Disgyblion?

Ydw	☒	Nac ydw	☐	Ddim yn siŵr	☐
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Pennod 2 – Egwyddorion y Cod

Cwestiwn 7 - Ai'r egwyddorion a nodir ym Mhennod 2 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yw'r rhai cywir?

Ie	☒	Na	☐	Ddim yn siŵr	☐
----	-------------------------------------	----	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Dan y pennawd 'System ddwyieithog', teimlwn y dylid cyfeirio nid yn unig at y Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY), ond yn ogystal at y prosesau ehangach. Er enghraifft, ble bynnag posib, dylai unrhyw brofion diagnostig, asesiadau a phrosesau ar gyfer penderfynu a oes gan y plentyn/person ADY, fod ar gael yn y Gymraeg ble mae angen hynny - boed hynny o fewn y sector addysg, iechyd neu ofal cymdeithasol. Efallai y byddai croesgyfeiriad at Fframwaith olynol 'Mwy na Geiriau' yn berthnasol yma.

Mae'n hysbys bod prinder asesiadau neu ddulliau sgrinio dibynadwy (neu arbenigwyr i'w gweinyddu a'u dadansoddi) yn y Gymraeg ar gyfer amryw o gyflyrau. Mae hynny'n fater o bryder gwirioneddol o ran gallu'r system i adnabod anghenion plant (ac i raddau, pobl ifanc) yn gywir at bwrpas y Ddeddf a'r Côt, ac felly i ddiwallu eu hanghenion yn effeithiol.

Dylai bod modd yn ogystal i gyfarfodydd gyda'r ysgol, awdurdod lleol, sefydliad addysg bellach neu wasanaeth iechyd gael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg ble mae'r plentyn, rhiant a/neu berson ifanc yn dymuno hynny.

Gellid ymhelaethu'n sylweddol iawn ar 2.24 a 2.25. Nid oes yma wir ganllaw, ond yn hytrach yr hyn sydd yn y Ddeddf heb ragor o fanylder ynghylch sut i weithredu. Mae hyn yn wendid sylweddol, ac mae'n debygol o adael bylchau fydd yn caniatáu diffyg gweithredu priodol (e.e. pa ffactorau dylid eu cymryd i ystyriaeth wrth 'ystyried a ddylid cyflwyno DDdY...drwy'r Gymraeg'; sut gellid diffinio 'cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ei bod yn cael ei chyflwyno drwy'r Gymraeg'?; beth yw ystyr 'digonolrwydd DDdY drwy'r Gymraeg', a sut gellid diffinio 'cymryd pob cam rhesymol i unioni'r mater'?; pa gamau dilynol sy'n deillio o adolygiadau Gweinidogion Cymru o ddigonolrwydd DDdY drwy'r Gymraeg - a sut dylid cynnal yr adolygiadau?). Mae'r pwyntiau hyn yn codi drwy'r Côt mewn gwahanol mannau.

Mae 2.26 yn datgan bod 'mwy o wybodaeth am ddarpariaethau drwy'r Gymraeg...ym Mhenodau 6 a 25.' Nid yw Pennod 6 (Cyngor a Gwybodaeth) na Phennod 25 (Osgoi a datrys anghytundebau a gwasanaethau eirioli annibynnol) yn cyfeirio o gwbl at y Gymraeg (y tu hwnt i gyfeiriad ym Mhennod 6 i'r angen i ddefnyddio Cymraeg a Saesneg clir). Yn bendant, mae angen iddo wneud.

Pennod 3 – Cynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc

Cwestiwn 8 - Ydy'r esboniad o'r dyletswyddau'n ymwneud â chynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc a roddir ym Mhennod 3 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn briodol?

Ydy	☒	Nac ydy	☐	Ddim yn siŵr	☐
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Pennod 4 - Dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

Cwestiwn 9 - Ydy Pennod 4 o'r fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir am y disgwyliadau ar awdurdodau lleol a chyrff y GIG wrth gyflawni eu dyletswyddau i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau?

Ydy	☒	Nac ydy	☐	Ddim yn siŵr	☐
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Pennod 5 – Dyletswydd i gadw llygad ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (ALP)

Cwestiwn 10 - Ydy'r canllawiau a roddir ym Mhennod 5 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY mewn perthynas â'r dyletswyddau i gadw llygad ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn briodol?

Ydyn	☒	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
------	-------------------------------------	----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Bydd angen gofal i sicrhau y gweithredir 5.7 yn gywir, hynny yw gyda'r pwyslais ar y ddarpariaeth yn gyffredinol, ac nid monitro ansawdd darparwyr unigol. Teclyn cynllunio strategol yw hyn i fod, ac nid 'arolygiad' yn null Estyn – ac mi allai'r rhestr o faterion ym mharagraff 5.12 gael ei cham-ddehongli a'i cham-weithredu.

O ran y rhestr ym mharagraff 5.12 o faterion y dylid ceisio casglu tystiolaeth yn eu cylch, awgrymwn y dylai fod pwyslais yma nid yn unig ar yr hyn sydd 'ar gael mewn ysgolion' ond yn ogystal, yr hyn sydd 'ar gael i ysgolion'. Er enghraifft, nid yn unig y 'trefniadau ar gyfer cynnwys arbenigwyr lle bo angen', ond argaeledd yr arbenigwyr hynny. Yn gysylltiedig â hynny, gellid ystyried casglu gwybodaeth ynghylch cydymffurfiaeth â'r amserlenni a'r terfynau amser a nodir yn y Côd; mi allai hynny fod yn fodd effeithiol o ddangos bod diffyg darpariaeth/arbenigedd/gwasanaethau i ddiwallu anghenion yn unol â gofynion y Côd.

Mae un cwestiwn pwysig arall yn codi yma, sef pa lefel o sgriwtini neu her (allanol?) sydd i adolygiad yr Awdurdod Lleol o'i drefniadau ei hun? Tybiwn fod hynny'n angenrheidiol os am sicrhau tryloywder a chysondeb - o ran canfyddiadau'r adolygiad, a'r camau gweithredu dilynol.

Pennod 6 – Cyngor a gwybodaeth

Cwestiwn 11 - Ydy'r canllawiau a roddir ym Mhennod 6 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY mewn perthynas â gwneud trefniadau i roi cyngor a gwybodaeth am ADY a'r system ADY yn briodol?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☒
------	--------------------------	----------	--------------------------	--------------	-------------------------------------

Sylwadau cefnogol

Mae Pennod 2 (Egwyddorion y Côd) yn dweud y bydd 'mwy o wybodaeth am ddarpariaethau drwy'r Gymraeg mewn perthynas â threfniadau rhoi cyngor a gwybodaeth...ym [Mhennod] 6...' – ond nid yw'r wybodaeth yn ymddangos yma. Yn bendant, mae ei hangen.

Pennod 7 – Y diffiniad o ADY a DDdY, nodi ADY a phenderfynu ar y DDdY sydd ei hangen

Cwestiwn 12 - Ydy'r esboniad hwn o ADY a roddir ym mharagraffau 7.4 – 7.32 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

Ydy	☐	Nac ydy	☐	Ddim yn siŵr	☐
-----	--------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Mae camgymeriad sillafu yn y fersiwn Cymraeg yn y pennawd ar ben dudalen 59 (cyn paragraff 7.13). Mae angen newid 'Plan' i 'Plant'.

7.20 – nid 'arwyddo' yw'r gair priodol yn y Gymraeg, ond yn hytrach 'awgrymu' (*likely to indicate* yn y fersiwn Saesneg).

Cwestiwn 13 - Ydy Pennod 7 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn rhoi esboniad clir a chynhwysfawr o'r dystiolaeth a ddylai fod yn sail i benderfyniadau am ADY a DDdY, o ba ffynonellau y gellid coladu'r dystiolaeth hon, a sut y dylid ei hystyried?

Ydy	☐	Nac ydy	☐	Ddim yn siŵr	☒
-----	--------------------------	---------	--------------------------	--------------	-------------------------------------

Sylwadau cefnogol

Er bod y ffynonellau tystiolaeth a phartneriaid posib yn glir, nid yw'r adran hon yn glir ynghylch pryd mae lefel y cymhlethdod yn golygu bod y cyfrifoldeb yn pasio oddi wrth y darparwr addysg (hynny yw yr ysgol, neu'r coleg addysg bellach) i'r Awdurdod Lleol. Mae natur yr ymholiadau, ymchwil a threfniadau a ddisgrifir ar gyfer dyfarnu (1) a oes ADY gan y plentyn/person ifanc a (2) pa DDdY fyddai'n briodol yn mynd ymhell tu hwnt i gapasiti y rhan fwyaf o CADY o ran yr amser sydd ar gael iddynt ar gyfer eu dyletswyddau. Efallai bod angen croesgyfeiriad yma at Bennod 9 o ran pryd ac o dan ba amgylchiadau y mae modd cyfeirio'r mater i'r Awdurdod Lleol.

Mae'r siartiau llif yn ddefnyddiol.

Penodau 8 i 12 – Dyletswyddau ar ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol

Swyddog Arweiniol ADY y Blynnyddoedd Cynnar

Cwestiwn 14 - Ydy'r canllawiau ar rôl, profiad ac arbenigedd y Swyddog Arweiniol ADY Blynnyddoedd Cynnar a nodir ym mharagraffau 8.40 - 8.47 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn briodol ar gyfer cyflawni'r amcanion (bod y rôl yn strategol a bod gan y cyfryw swyddogion y profiad a'r arbenigedd priodol i fodloni disgwyliadau'r rôl)?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
------	--------------------------	----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Dyletswyddau ar ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol

Cwestiwn 15 - Ydy strwythur a chynnwys Penodau 8 i 12 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

Ydyn	☒	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
------	-------------------------------------	----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Gweler sylwadau penodol yng nghwestiwn 46 isod.

Cwestiwn 16 - Ydy'r amserlenni ar gyfer penderfyniadau gan ysgolion, SAB ac awdurdodau lleol ar ADY a pharatoi CDU fel y'u nodir ym Mhenodau 8-12 yn briodol?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☒
-------------	--------------------------	-----------------	--------------------------	---------------------	-------------------------------------

Sylwadau cefnogol

Maint yn ymddangos yn briodol o safbwynt plant a phobl ifanc ag ADY.

Mae p'un a ydynt yn briodol o safbwynt ysgolion a SAB yn dibynnu bron yn llwyr ar faint o amser digyswllt ac adnoddau fydd gan y CADY; ni fydd y math o ofynion a ddisgrifir yn y Côd yn cydweddu'n dda gydag amserlen ddysgu.

Bydd angen bod yn ymwybodol iawn o amserlenni a therfynau amser sy'n bodoli eisoes o fewn y GIG. Os yw penderfyniadau ynghylch ADY, a darpariaeth ddilynol yn ddibynol ar fewnbwn o'r sector iechyd, bydd amserlen y naill yn amlwg yn ddibynol ar amserlen y llall.

Penderfynu a yw'n 'angenrheidiol' i awdurdod lleol baratoi a chynnal CDU ar gyfer person ifanc nad yw mewn ysgol a gynhelir neu SAB- Proposed regulations to be made under Adran 46 o Ddeddf 2018

Cwestiwn 17 - Ydy'r gofynion a chanllawiau arfaethedig ym mharagraffau 12.22 – 12.51 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ynghylch pryd mae'n angenrheidiol i awdurdod lleol gynnal CDU ar gyfer person ifanc nad yw mewn ysgol neu SAB yng Nghymru yn briodol?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
-------------	--------------------------	-----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Pennod 13 – Cynnwys CDU

Cwestiwn 18 - Ydy elfennau cynnwys gorfodol CDU sy'n ofynnol o dan y Cod ADY yn briodol?

Ydyn	☒	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
-------------	-------------------------------------	-----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Cwestiwn 19 - Ydy'r ffurflen safonol orfodol sydd mewn golwg ar gyfer CDU (wedi'i chynnwys yn Atodiad A y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?

Ydy	☒	Nac ydy	☐	Ddim yn siŵr	☐
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Bydd angen sicrhau bod disgwyliadau priodol ynghylch hyd a manylder cynnwys y ffurflen ar gyfer dysgwyr sydd ag ADY nad ydynt yn ddwys, cymhleth na phrin - hynny yw, y rhai sy'n cyfateb ar hyn o bryd i Weithredu gan yr Ysgol, ac i raddau,

Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Gan fod niferoedd y dysgwyr hyn yn fawr iawn, mae'n rhaid bod y dasg o ran llenwi'r ffurflen yn gymesur â'r anghenion.

Cwestiwn 20 - Ydy'r canllawiau ym Mhennod 13 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

Ydyn	☒	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
------	-------------------------------------	----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Cludiant

Cwestiwn 21 - Ydy'r canllawiau ar gludiant ym mharagraffau 13.74 - 13.76 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn briodol?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
------	--------------------------	----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Pennod 15 – Dyletswyddau ar gyrff iechyd a phersonau perthnasol eraill

Ceisiadau statudol gan awdurdodau lleol i bersonau perthnasol am wybodaeth neu help arall - Proposed regulations to be made under Adran 65(5) o Ddeddf 2018

Cwestiwn 22 - Ydy'r amserlen a'r eithriadau sydd mewn golwg yn achos personau perthnasol yn cydymffurfio â chais awdurdod lleol am wybodaeth neu help arall (o dan Adran 65 Deddf 2018) yn briodol?

Ydyn	☒	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
------	-------------------------------------	----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

DDdY i'w sicrhau gan gyrff y GIG - Proposed regulations to be made under Adran 21(10) o Ddeddf 2018

Cwestiwn 23 - Ydy'r cyfnod a'r eithriad arfaethedig y mae'n rhaid i gorff y GIG hysbysu eraill am ganlyniad atgyfeiriad iddo (o dan Adran 20 o Ddeddf 2018) i nodi a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol yn briodol?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☒
------	--------------------------	----------	--------------------------	--------------	-------------------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg ("SACDA")

Cwestiwn 24 - Ydy'r canllawiau ar rôl, profiad ac arbenigedd y SACDA a nodir ym mharagraffau 15.37 – 15.53 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn briodol ar gyfer cyflawni'r amcanion (bod y rôl yn un strategol a bod gan swyddogion o'r fath brofiad ac arbenigedd priodol)?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
-------------	--------------------------	-----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Pennod 16 – Adolygu a diwygio CDU

Cwestiwn 25 - Ydy cynnwys a strwythur Pennod 16 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

Ydyn	☒	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
-------------	-------------------------------------	-----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Cwestiwn 26 - Ydy'r cyfnod a'r eithriad arfaethedig ar gyfer cwblhau adolygiadau mewn ymateb i gais gan blentyn, ei riant, person ifanc neu gorff y GIG (a nodir ym mharagraff 16.18 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?

Ydyn	☒	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
-------------	-------------------------------------	-----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Fel uchod, gyda llunio'r CDU, bydd angen sicrhau bod disgwyliadau priodol ynghylch natur y broses adolygu ar gyfer dysgwyr sydd ag ADY nad ydynt yn ddwys, cymhleth na phrin - hynny yw, y rhai sy'n cyfateb ar hyn o bryd i Weithredu gan yr Ysgol, ac i raddau, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Gan fod niferoedd y dysgwyr hyn yn fawr iawn, mae'n rhaid bod y dasg o adolygu'r CDU yn gymesur â'r anghenion.

Pennod 17 – Ailystyriaethau awdurdod lleol ac ysgwyddo cyfrifoldeb am CDU

Cwestiwn 27 - Ydy cynnwys a strwythur Pennod 17 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

Ydyn	☒	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
-------------	-------------------------------------	-----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Mae 17.12 yn anodd ei ddilyn yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. Byddai torri'r frawddeg gyntaf yn ddwy yn help, drwy osod y darpariaethau ynghylch plentyn neu berson ifanc mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru mewn un frawddeg, a'r

darpariaethau cyfatebol ynghylch plentyn neu berson ifanc mewn ardal awdurdod lleol yn Lloegr mewn brawddeg arall.

Cwestiwn 28 - Ydy'r cyfnod a'r eithriad arfaethedig ar gyfer awdurdod lleol sy'n ailystyried CDU ysgol (a nodir ym mharagraff 17.20 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?

Ydyn	☒	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
------	-------------------------------------	----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Pennod 18 – Cyfarfodydd am ADY a CDU

Cwestiwn 29 - Ydy'r egwyddorion a'r canllawiau a roddir ym Mhennod 18 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar gyfarfodydd am ADY a CDU yn briodol?

Ydyn	☒	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
------	-------------------------------------	----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Mae camgymeriad yn y fersiwn Cymraeg ym mharagraff 18.23. Yn lle 'Os na fydd...' dylai fod 'Os bydd...'

Pennod 19 – Cynllunio a chefnogi pontio

Cwestiwn 30 - Ydy'r canllawiau ym Mhennod 19 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar gynorthwyo plant a phobl ifanc gyda phontio effeithiol yn briodol?

Ydyn	☒	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
------	-------------------------------------	----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Pennod 20 – Trosglwyddo CDU

Cwestiwn 31 - Ydy cynnwys a strwythur Pennod 20 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☒
------	--------------------------	----------	--------------------------	--------------	-------------------------------------

Sylwadau cefnogol

A yw 20.11 yn gywir? Os oedd y plentyn yn un oedd yn derbyn gofal, deallwn mai'r awdurdod lleol fyddai wedi bod yn cynnal y CDU, felly, yn ôl yr hyn a ddisgrifir, nid oes trosglwyddo'n digwydd. A yw 'peidio â bod yn blentyn sy'n derbyn gofal' yn cynnwys amgylchiadau, er enghraifft, pan fydd plentyn yn dychwelyd i'r teulu genedigol, neu'n cael ei fabwysiadu?

Mae'n ymddangos fel petai'r paragraff hwn yn gwrth-ddweud (neu o leiaf, yn mynegi mewn ffordd wahanol) yr hyn sydd ym mharagraff 21.6 (b).

Trosglwyddo CDU - Proposed regulations to be made under Adran 36(3) o Ddeddf 2018 a Adran 37 o Ddeddf 2018

Cwestiwn 32 - Ydy'r gofynion y bwriedir eu cynnwys mewn rheoliadau i drosglwyddo CDU i SAB (fel y'u disgrifir ym mharagraffau 20.12 - 20.17 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☒
------	--------------------------	----------	--------------------------	--------------	-------------------------------------

Sylwadau cefnogol

Nodir yn glir yr amserlenni ar gyfer (a) SAB i ymateb i gais gan awdurdod lleol a (b) awdurdod lleol i atgyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, ni nodir unrhyw amserlen na therfyn amser ar gyfer penderfyniad gan Weinidogion Cymru. Rydym o'r farn y byddai'n fanteisiol bod amserlen o'r fath yn bodoli - er mwyn i ddisgwyliadau pawb sydd ynghlwm â'r broses fod yn glir, ac i osgoi rhagor o oedi ar ôl proses a fydd eisoes wedi bod yn hirfaith o safbwynt y person ifanc. Dylai'r amserlen gael ei ragnodi yn y Rheoliadau arfaethedig, ac yn y Côd.

Cwestiwn 33 - Ydy'r trefniadau y bwriedir eu cynnwys yn y rheoliadau mewn perthynas â'r holl achosion eraill o drosglwyddo (fel y'u disgrifir ym mharagraffau 20.18– 20.21 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
------	--------------------------	----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Pennod 21 – Rhoi'r gorau i gynnal CDU

Cwestiwn 34 - Ydy cynnwys a strwythur Pennod 21 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
------	--------------------------	----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Yn y fersiwn Cymraeg, ar dudalen 231, mae troednodiadau 5-10 wedi colli eu fformat (yn y prif destun).

Gweler cwestiwn 31 uchod. A oes gwrth-ddweud rhwng paragraff 21.6 a pharagraff 20.11?

Cwestiwn 35 - Ydy'r cyfnod o amser ar gyfer gwneud cais am ailystyriaeth (a ddisgrifir yn 21.18 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?

Ydy	☒	Nac ydy	☐	Ddim yn siŵr	☐
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Nodir yn glir bod gan blentyn, ei riant neu berson ifanc 4 wythnos i wneud cais i'r awdurdod lleol ailystyried penderfyniad ysgol nad oes gan y disgybl ADY bellach (ac felly nad oes angen cynnal CDU); fodd bynnag ni nodir amserlen ar gyfer

penderfyniad gan yr awdurdod lleol ar y mater. Awgrymwn y byddai'n werth nodi amserlen yn y Rheoliadau arfaethedig, a'i gynnwys yn y Côd, er mwyn i bawb sydd ynghlwm â'r broses fod â disgwyliadau clir, ac i osgoi oedi diangen.

Pennod 22 – Plant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw

Cwestiwn 36 - Ydy cynnwys a strwythur Pennod 22 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn glir?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
------	--------------------------	----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Cwestiwn 37 - Ydy'r cynigion ar gyfer y rheoliadau mewn perthynas â phenderfynu a fydd hi'n angenrheidiol cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc dan gadwad pan fydd yn cael ei ryddhau yn briodol?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
------	--------------------------	----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Cwestiwn 38 - Ydy'r cynigion ar gyfer y rheoliadau mewn perthynas â phlant neu bobl ifanc sy'n destun gorchymyn cadw a dan gadwad mewn ysbyty o dan Ran 3 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y disgrifir ym mharagraffau 22.45 – 22.74 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY) yn briodol?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
------	--------------------------	----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Cwestiwn 39 - Ydy'r gofynion o ran amserlenni ar gyfer gweithredu'n "brydlon" mewn perthynas â phenderfyniadau am ADY a pharatoi CDU ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun gorchmynion cadw (fel y nodir ym Mhennod 22) yn briodol, yn hytrach na chael gofyniad hefyd i gydymffurfio o fewn cyfnod penodol yn amodol ar eithriad neu eithriadau?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
------	--------------------------	----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Pennod 23 – Plant a phobl ifanc o dan amgylchiadau penodol

Cwestiwn 40 - Ydy'r canllawiau ym Mhennod 23 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar blant a phobl ifanc o dan amgylchiadau penodol yn briodol?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
------	--------------------------	----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Yn y rhestr bwled ym mharagraff 23.2, mae dau bwynt wedi'u huno, ac mae angen eu gwahanu (y pedwerydd pwynt bwled); mae hyn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Pennod 24 – Rôl y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol

Cwestiwn 41 - Ydy'r wybodaeth a nodir ym Mhennod 24 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY am rôl a chyfrifoldebau'r Cydlynnydd ADY yn briodol?

Ydy	☐	Nac ydy	☒	Ddim yn siŵr	☐
-----	--------------------------	---------	-------------------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Mae'r wybodaeth yn y Côt yn glir. Fodd bynnag, mae gan UCAC bryderon sylweddol iawn ynghylch y darpariaethau yn sgil gofynion Deddf 2018 a'r Côt.

Mae disgrifio'r rôl fel un 'strategol' yn gwbl gamarweiniol. Oes, mae yna elfennau strategol sylweddol i'r rôl, ond mae'n rôl weithredol ("hands on") drom iawn yn ogystal. Mae'r rhestrau hirfaith o ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill CADY yn y Côt yn brawf o hynny, ac maint yn cyfeirio at ddelio ag achosion unigol (e.e. 24.14, 24.16, 24.19, 24.22 ac ati).

Cytunwn yn llwyr â'r datganiad ym mharagraff 24.5 ynghylch neilltuo adnoddau digonol i gyflawni dyletswyddau'n effeithiol - gan gynnwys amser wedi'i neilltuo y tu allan i'r ystafell ddosbarth. O ddarllen y rhestrau o ddyletswyddau a chyfrifoldebau, ac o ddeall faint o gydlynw bydd ei angen gyda chyrff ac asiantaethau allanol, mae'n glir iawn mai rôl llawn amser yw'r un a ddisgrifir, ac nid un y gellir ei gyflawni mewn ychydig o oriau digyswllt wythnosol. Yn wir, mewn llawer o ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach mi fydd angen mwy nag un CADY. Mewn ysgolion bach, os yw'r CADY'n cael ei rannu (yn unol â pharagraff 24.2), wedyn mi fyddai hynny hefyd yn awgrymu rôl llawn amser.

24.3: Mae'r cyfeiriad at 'gymwysterau sylweddol' ("*should be highly qualified*") yn amhenodol iawn. Derbyniwn nad oes modd bod yn fanwl ac yn benodol, ond dylid cydnabod mai prin iawn yw'r cymwysterau sy'n berthnasol i ADY sydd gan y mwyafrif helaeth o Gydlynwyr AAA/ADY ar hyn o bryd. Awgrymwn fod angen aralleirio'r cymal hwn i roi pwyslais ar yr angen i fanteisio ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol perthnasol.

24.6: Byddai'n ddefnyddiol rhoi enghreifftiau o'r 'cyfrifoldebau nad ydynt yn ymwneud ag addysgu' sydd dan sylw yma.

24.11: Ar ôl 'athrawon' dylid ychwanegu 'a staff cymorth dysgu'. Nid yw 'os oes angen' yn briodol yma; o ddarllen gweddill y Côt, mae'n amlwg ei fod yn anorfod y bydd angen 'gwybodaeth a chymorth ar gyfer rhieni ac asiantaethau/sefydliadau

eraill'. Mae'r elfen hon yn haeddu ei baragraff ei hun, yn hytrach na chael ei gyfuno gydag 'arweiniad, cyngor a chymorth proffesiynol ar gyfer athrawon.'

24.12: Os na fydd gofyn i'r CADY ddatblygu pob CDU, byddai'n ddefnyddiol iawn rhoi enghreifftiau o bwy arall mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach fyddai'n gymwys i wneud hynny. Ar hyn o bryd y CADY sy'n llunio'r mwyafrif helaeth o CDUau. Mae angen gochel rhag rhoi tasgau newydd i athrawon sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd dygymod â llwyth gwaith; os oes gofyniad newydd arnynt, rhaid sicrhau bod yna leihad mewn maes arall i greu'r gofod ar ei gyfer. Rhaid bod yn benodol ynghylch pwy allai ymgymryd â'r dasg.

24.13: Mewn modd tebyg, awgrymwn fod angen rhoi enghreifftiau o'r mathau o bersonau allai gael eu dynodi 'i gydlynu'r camau sy'n ofynnol i wneud y penderfyniad hwn [a oes gan ddisgybl/myfyriwr ADY] ac, os bydd angen CDU yn sgil hynny, i fod yn gyfrifol am ei lunio.' Mae'n anodd iawn gennym feddwl pwy arall, mewn ysgol, fyddai â'r capasiti, yr arbenigedd a'r amser i ymgymryd â'r dyletswyddau hynny, a thybiwn mai ar y CADY y bydd y cyfrifoldeb yn cwmpo bron yn ddieithriad. Mae angen bod yn onest ynghylch hynny yn y Côt ac yn realistig felly ynghylch maint y dasg.

Rydym o'r farn bod gormod o ragdybiaeth ymhlyg yn y fersiwn Cymraeg bod CADY yn wrywaidd (er yr ydym yn derbyn, yn ramadegol, mai gwrywaidd yw'r gair Cydlynnydd). Pwyswn am ymgais i aralleirio i osgoi hyn gymaint â phosib, ac yn sicr i osgoi ffurfiau megis 'iddo', 'ganddo' ac ati.

Pennod 25 – Osgoi a datrys anghydfodau

Cwestiwn 42 - Ydy'r gofynion a osodir ym Mhennod 25 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar awdurdodau lleol mewn perthynas â threfniadau i osgoi a datrys anghydfod yn briodol?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☒	Ddim yn siŵr	☐
------	--------------------------	----------	-------------------------------------	--------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

25.7: A oes angen cyfeiriad at baragraffau penodol fan hyn, yn hytrach na chyfeiriad at Bennod 25 yn gyffredinol, gan mai ym Mhennod 25 y mae'r paragraff?

25.15: Awgrymwn ychwanegu at y rhestr: sicrhau bod modd i blentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc ddefnyddio'r trefniadau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae Pennod 2 (Egwyddorion y Côt) yn dweud y bydd 'mwy o wybodaeth am ddarpariaethau drwy'r Gymraeg mewn perthynas â threfniadau...osgoi a datrys anghytundebau, a gwasanaethau eirioli annibynnol ym [Mhennod]...25' – ond nid yw'r wybodaeth yn ymddangos yma. Yn bendant, mae ei hangen. Gan nad yw Safonau'r Gymraeg yn cyfeirio'n benodol at wasanaethau eirioli, rydym yn deall na fyddai'r Safonau'n gallu gwarantu darpariaeth i ddefnyddwyr. Mae'n hynny'n golygu bod mwy o reidrwydd dros ymhelaethu ar yr hawl yn y Côt; ac os gofiwn yn iawn, mi wnaeth y Gweinidog ar y pryd, yn ystod taith y Bil drwy'r Cynulliad, ymrwymo i hynny.

Dulliau eraill o herio (25.47-25.54); oni ddylai fod cyfeiriad at Gomisiynydd y Gymraeg a Thribiwnlys y Gymraeg yma? Gan fod sawl elfen o'r darpariaethau'n ddibynnol ar Safonau'r Gymraeg sydd wedi'u gosod ar awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach, credwn y byddai cyfeiriadau o'r fath yn briodol.

Cwestiwn 43 - Ydy'r gofynion a osodir ym Mhennod 25 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY ar awdurdodau lleol mewn perthynas â darparu gwasanaethau eirioli annibynnol yn briodol?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☒	Ddim yn siŵr	☐
-------------	--------------------------	-----------------	-------------------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Dylai bod cyfeiriad yma at sicrhau bod y gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg.

Pennod 26 – Apelau a cheisiadau i'r Tribiwnlys

Cwestiwn 44 - Ydy'r wybodaeth am apelau a'r broses apelau a nodir ym Mhennod 26 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY yn briodol?

Ydy	☐	Nac ydy	☐	Ddim yn siŵr	☐
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Yn y fersiwn Cymraeg, yn 26.22 mae (b) yn ymddangos yn y lle anghywir (yng nghanol pwynt bwled (a)), ac felly'n creu un pwynt bwled yn ormod yn y rhestr.

Pennod 27 – Cyfeillion achos ar gyfer plant â diffyg galluedd

Cwestiwn 45 - Ydy'r wybodaeth am gyfeillion achos, yn cynnwys y dyletswyddau ar y Tribiwnlys i benodi a dileu ffrindiau achos, yn cael ei hegluro'n glir ym Mhennod 27 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY?

Ydy	☐	Nac ydy	☐	Ddim yn siŵr	☐
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Unrhyw sylwadau eraill

Cwestiwn 46 - Rhewch unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY. Os yw'ch sylwadau'n ymwneud â phennod neu baragraff penodol yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY, nodwch hynny yn eich ymateb

Sylwadau cefnogol

Cyffredinol

Yn y fersiwn Cymraeg, dylid ceisio osgoi'r defnydd o ragenwau neu eiriau eraill sy'n rhagdybio'r gwrywaidd e.e. 3.4 pwynt bwled 2 ("iddo"); 3.16 ("ef", "iddo"). Mae ffyrdd o wneud hynny, er enghraifft, trwy ddefnyddio ffurfiau lluosog neu trwy aralleirio.

Yn y fersiwn Cymraeg, defnyddir CADY ar gyfer Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yng nghyd-destun ysgolion, ond Cydlynnydd ADY ar gyfer y swydd gyfatebol mewn SAB. Yn y fersiwn Saesneg defnyddir ALNCo ar gyfer y ddau. A oes rheswm dros wahaniaethu?

1.65: Croesawn y pwyslais ar yr angen am ddatblygiad proffesiynol. Fodd bynnag, er bod yna gyfrifoldeb ar unigolion 'am eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain', teimlwn y byddai'n deg cyfeirio at yr angen i gyrff eraill wneud hynny'n bosib/hwyluso hynny – o ran darparu amser/cyllid/cyfleoedd/cefnogaeth briodol. Nid yw hyn yn rhywbeth y gellid disgwyl i ymarferwyr ei gyflawni ar eu pennau eu hunain – mae'r cyfrifoldeb yn un ehangach, a hoffai UCAC weld cydnabyddiaeth o hynny yng ngeiriad y Côd.

8.22/9.74/10.20/11.18/12.53: Mae angen canllaw cliriach yn y Côd ynghylch y ffactorau i'w hystyried wrth ddod i benderfyniad ynghylch 'a ddylid darparu ...DDdY drwy'r Gymraeg' (e.e. dymuniad y plentyn/rhiant/person ifanc; iaith y cartref; cyfrwng iaith y ddarpariaeth addysg).

8.33/9.36/9.86/10.34/10.74/11.65/12.67: Mae wir angen ymhelaethu a darparu canllaw gweithredol i'r hyn o olygir (a'r hyn na olygir) gan 'pob cam rhesymol' i sicrhau bod y DDdY yn cael ei darparu drwy'r Gymraeg. Yn ogystal, mae angen bod yn gwbl glir bod methiant i gymryd pob cam rhesymol yn sail ar gyfer apêl i'r Tribiwnlys. Fel arall, mae perygl i hyn ddatblygu'n 'loophole' sy'n caniatáu pob math o resymau annilys.

Pennod 9

9.3 (llinell 2): Yn y fersiwn Cymraeg, mae angen newid 'iddo' i 'iddi' (yr ysgol hon).

Dyletswydd ysgol a gynhelir i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau DDdY ar gyfer disgybl ag ADY ond sydd heb CDU (9.27-9.33): Mae'r rhestr o enghreifftiau yn 9.28 o amgylchiadau a allai arwain at ddiffyg CDU ar gyfer plentyn ag ADY yn ddefnyddiol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn achosion o sefyllfaoedd ble mae CDU yn y broses o gael ei lunio neu ei drosglwyddo. Mae cwestiynau'n codi yn y cyd-destun hwn ynghylch p'un ai yw cyllid yn cael ei ryddhau i'r ysgol ar gyfer y DDdY yn ystod y cyfnod hwn. Os oes disgwyl i ysgol ddarparu DDdY, ac os oes goblygiadau ariannol, ni ddylai fod unrhyw oedi tra bod CDU yn cael ei lunio neu ei drosglwyddo.

Mae un o'r enghreifftiau a roddir yn llawer mwy cymhleth, sef os yw'r disgybl yn berson ifanc 'nad yw'n cydsynio i'r bwriad i wneud penderfyniad am ADY nac yn cydsynio i'r bwriad o lunio neu gynnal cynllun'. Gallai ysgol fod mewn sefyllfa o orfod cynnig DDdY, heb fod wedi cael mewnbwn arbenigol ynghylch union natur yr ADY, y DDdY fwyaf priodol ac effeithiol, ac heb unrhyw drefniadau ffurfiol ynghylch pwy sy'n darparu beth, sut caiff ei gyllido, na threfniadau monitro ac adolygu. Awgrymwn fod angen ystyried ychwanegu rhagor o gyngor yn y Côd - mewn isadran benodol - ynghylch sefyllfaoedd o'r fath.

Cyfeirio achosion o ysgol a gynhelir i awdurdod lleol (9.39-9.48): Croesawn yr adran hon. Awgrymwn y dylai paragraff 9.44 ddod yn gynharach – ac efallai yn syth ar ôl 9.39. Er bod y Cod yn eithaf clir, rydym yn rhagweld problemau sylweddol iawn o ran dyfarnu ar faterion ym mharagraff 9.44, a llawer o anghydwedd rhwng ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol. Mae anghysondeb mewn dulliau ariannu ADY o awdurdod i awdurdod yn golygu y gallai'r pwynt bwled olaf gael ei ddehongli'n wahanol o ardal i ardal.

I ryw raddau mae 9.45 yn mynd i'r afael â hynny; fodd bynnag, oni fyddai'n well i'r 'gyfres o egwyddorion' fod yn rhai cenedlaethol (o fewn y Côd) i sicrhau rhywfaint o gysondeb ledled Cymru? Mae perygl yn y ffaith mai awdurdodau lleol sy'n llunio'r egwyddorion (hyd yn oed mewn ymgynghoriad ag ysgolion ac eraill) y byddant yn llunio egwyddorion sy'n tueddu i roi mwy o gyfrifoldebau ar ysgolion, ac osgoi ysgwyddo cyfrifoldebau eu hunain. Gwyddom eisoes dan y drefn bresennol bod patrwm o geisio osgoi rhoi Datganiadau er mwyn osgoi'r cyfrifoldeb a'r costau sydd

ynghlwm â hynny; mi fyddai'n naïf i feddwl y byddant yn gweithredu'n wahanol dan y drefn newydd - yn enwedig â'r cyd-destun cyllidebol fel ag y mae.

9.54: Yn y Gymraeg, mae “ymddangos fel arall” yn amwys. Mae'n awgrymu “appear otherwise” (hynny yw, nad oes ADY gan y disgybl) yn hytrach na “otherwise appear” (hynny yw, ymddangos mewn dull gwahanol).

Cyfarwyddyd gan awdurdod lleol i ysgol i lunio neu gynnal CDU (9.92-9.104): Yn yr un modd â'r adran ynghylch Cyfeirio achosion o ysgol a gynhelir i awdurdod lleol, rydym yn pryderu'n fawr am y potensial am wrthdaro mewn perthynas â'r darpariaethau hyn. Cwestiwn pwysig yw a oes gan ysgol a gynhelir unrhyw hawl i herio neu i apelio yn erbyn cyfarwyddyd gan awdurdod lleol? Dylai bod modd cael barn *annibynnol* ar resymoldeb y cyfarwyddyd. Os oes unrhyw fecanwaith o'r fath, dylid cyfeirio ato yn y Côt.

Pennod 10

Dyletswydd sefydliad addysg bellach i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau DDdY ar gyfer myfyriwr ag ADY ond sydd heb CDU (10.26-10.31): Yn wahanol i'r adran gyfatebol ar gyfer ysgolion a gynhelir, ni roddir os yw'r myfyriwr yn berson ifanc 'nad yw'n cydsynio i'r bwriad i wneud penderfyniad am ADY nac yn cydsynio i'r bwriad o lunio neu gynnal cynllun' fel enghraifft o reswm dros fod heb CDU. A yw hyn yn fwriadol? Beth yw'r disgwyliadau ar SABau dan yr amgylchiadau hyn? A ydynt yn gyfatebol i'r disgwyliadau ar ysgolion a gynhelir?

16.23: A oes hawl gan blentyn, ei riant neu berson ifanc i herio neu i apelio yn erbyn penderfyniad corff GIG i dynnu neu newid disgrifiad y DDdY a ddarperir ganddo ac a nodir yn y CDU? Mae'n ymddangos nad oes gan ysgol/SAB/awdurdod lleol yr hawl i wneud hynny.

Rhan 2 yr ymgynghoriad: Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru drafft

Yr hyn rydym yn ei gynnig

Cwestiwn 47 - At ei gilydd, ydy'r rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft yn darparu prosesau a gweithdrefnau clir ar gyfer apelau a hawliadau i'r Tribiwnlys Addysg?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
-------------	--------------------------	-----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Cwestiwn 48 - At ei gilydd, a fydd y prosesau a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft yn galluogi'r Tribiwnlys Addysg i ymdrin ag achosion yn deg ac yn gyfiawn?

Bydd	☐	Na fydd	☐	Ddim yn siŵr	☐
-------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Cwestiwn 49 - Ydy'r broses arfaethedig ar gyfer datganiadau achos (rheoliadau 12-21 y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft) yn briodol?

Ydy	☐	Nac ydy	☐	Ddim yn siŵr	☐
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Cwestiwn 50 - Ydy'r amserlenni arfaethedig ar gyfer pob parti yn y broses datganiadau achos (rheoliadau 12-21 y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft) yn rhesymol?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
-------------	--------------------------	-----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Cwestiwn 51 - Ydy'r amserlen lle mae'n rhaid i gyrff y GIG adrodd i'r Tribiwnlys Addysg o fewn 6 wythnos i argymhellid (rheoliad 65 o'r rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft) yn briodol?

Ydy	☐	Nac ydy	☐	Ddim yn siŵr	☐
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Cwestiwn 52 - Ydy'r amserlenni ar gyfer cydymffurfio â gorchmynion y Tribiwnlys Addysg yn briodol?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
-------------	--------------------------	-----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Cwestiwn 53 - Ydy'r dull gweithredu mewn perthynas ag amserlenni (rheoliad 66 y rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft) yn briodol?

Ydy	☐	Nac ydy	☐	Ddim yn siŵr	☐
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Cwestiwn 54 - Ydy'r rheoliadau arfaethedig yn ymwneud â chyfeillion achos (rheoliadau Tribiwnlys Addysg drafft 64 i 68) yn briodol?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
-------------	--------------------------	-----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Rhan 3 yr ymgynghoriad: Fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Cydlynnydd ADY

Cwestiwn 55 - Ydy'r cymwysterau rhagnodedig i fod yn Gydlynnydd ADY a nodir yn y rheoliadau Cydlynnydd ADY drafft yn briodol?

Ydyn	☒	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
-------------	-------------------------------------	-----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Cwestiwn 56 - Ydych chi'n cytuno â'r tasgau y mae'n rhaid i Gydlynwyr ADY eu cyflawni neu drefnu i gael eu cyflawni yn y rheoliadau Cydlynnydd ADY drafft?

Ydw	☒	Nac ydw	☐	Ddim yn siŵr	☐
------------	-------------------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Yn Rheoliad 5 (d) a oes angen gwahaniaethu rhwng plentyn a pherson ifanc mewn perthynas â'r gofynion i ddarparu gwybodaeth i rieni?

Rhan 4 yr ymgynghoriad: Plant sy'n derbyn gofal

(a) Rheoliadau arfaethedig i'w gwneud

Cwestiwn 57 - Ydych chi'n cytuno y dylai rôl Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal fod yn rôl statudol?

Ydw	☐	Nac ydw	☐	Ddim yn siŵr	☐
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

(b) Pennod 14 y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY – Cynnwys CDU ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal

Cwestiwn 58 - Ydych chi'n cytuno y dylai fod ffurflen safonol ar wahân ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac Ydy'r ffurflen safonol arfaethedig, ynghyd â'r canllawiau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â hi, yn briodol?

Ydw/Ydy	☐	Nac ydw/ Nac ydy	☐	Ddim yn siŵr	☐
----------------	--------------------------	-----------------------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

(c) Diwygiadau arfaethedig i'r Cod Rhan 6

Cwestiwn 59 - Ydy'r diwygiadau drafft i'r Cod Rhan 6 yn rhoi esboniad clir o'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'u swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd ag ADY a beth mae'r dyletswyddau hyn yn ei olygu yn ymarferol?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
-------------	--------------------------	-----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

Cwestiwn 60 - Yn gyffredinol, ydych chi'n cytuno â'r dull a ddefnyddir yn y fersiwn ddrafft o'r Cod Rhan 6 diwygiedig i egluro'r newidiadau deddfwriaethol, yn cynnwys integreiddio cynlluniau addysg personol a CDU a chynnwys gorfodol cynlluniau addysg personol? Ydy'r gofynion a'r disgwyliadau a'r hyn maent yn ei olygu yn ymarferol yn cael eu hesbonio'n glir?

Ydw/Ydyn	☐	Nac ydw/ Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
-----------------	--------------------------	------------------------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Cwestiwn 61 - Ydy'r newidiadau sydd wedi eu gwneud i'r cod Rhan 6 yn egluro rôl y Cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal yn glir o ran goruchwyllo'r trefniadau ADY ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol?

Ydyn	☐	Nac ydyn	☐	Ddim yn siŵr	☐
-------------	--------------------------	-----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Sylwadau cefnogol

--

Rhan 5 o'r ymgynghoriad: Effaith cynigion

Effaith rheoliadau arfaethedig

Cwestiwn 62 - Pa effaith ydych chi'n rhagweld o ganlyniad i'r rheoliadau arfaethedig?

Sylwadau cefnogol

Mae'r gofynion ar gyfer Cydlynwyr ADY dan y drefn newydd a osodir gan Ddeddf 2018 a'r Côt arfaethedig, yn sylweddol uwch na'r drefn bresennol, a hynny'n arbennig mewn perthynas â'r niferoedd/canrannau sylweddol iawn o ddisgyblion sydd ar hyn o bryd yn dod dan gategori 'Gweithredu gan yr Ysgol'. O ganlyniad i hynny, rydym yn rhagweld bod rôl statudol y Cydlynwyr ADY, natur y dyletswyddau a lefel y cyfrifoldebau, yn mynd i olygu bod angen i Gydlynwyr ADY, yn amlach na pheidio, fod yn rôl llawn amser, neu o bosib bod angen mwy nag un Cydlynwr fesul lleoliad mewn sefydliadau mawr. Os na fydd hynny'n digwydd, bydd perygl na fydd yn bosib cyflawni'r gofynion statudol.

Mi fyddai goblygiadau cyllidebol i hynny nad oes modd i ysgolion – nac o bosib Awdurdodau Lleol – eu hysgwyddo ar hyn o bryd.

Rhagwelwn y bydd angen i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru roi ystyriaeth i rôl, tâl ac amodau Cydlynwyr ADY o fewn cyfundrefn addysg Cymru.

Effaith ar y Gymraeg

Cwestiwn 63 - Pa effaith y byddai'r cynigion yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a'r rheoliadau arfaethedig yn ei chael ar y Gymraeg yn eich barn chi?

Sylwadau cefnogol

Mae yma botensial i wella'r sefyllfa yn sylweddol o safbwynt dysgwyr ag ADY. Bydd llawer yn dibynnu ar ddiffiniad, dros amser o 'gymryd pob cam rhesymol', a sicrhau bod pob corff yn gweithio tuag at wella'r ddarpariaeth dros gyfnod.

Cwestiwn 64 - Sut ydych chi'n credu y gellid llunio neu newid y cynigion yn y fersiwn ddrafft o'r Cod ADY a'r rheoliadau arfaethedig er mwyn:

- i) cael effaith gadarnhaol neu fwy o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?;
- ii) sicrhau nad oes effaith andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Sylwadau cefnogol

- ymhelaethu ar y dull o benderfynu a ddylid darparu DDdY yn Gymraeg
- ymhelaethu ar y diffiniad o 'pob cam rhesymol' i ddarparu DDdY yn Gymraeg
- rhoi sicrwydd bod gwasanaethau eirioli ar gael yn Gymraeg

- sicrhau bod hawl i apelio i'r Tribiwnlys ar sail diffyg DDdY yn Gymraeg (a phrosesau cysylltiedig), os na ellid profi bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd
- sicrhau bod adolygiad Llywodraeth Cymru bob pum mlynedd yn arwain at weithredu pwrpasol ar bob lefel
- buddsoddi mewn asesiadau diagnostig a sgrînioi pwrpasol yn y Gymraeg
- cynllunio'r amrywiaeth o weithluoedd perthnasol i sicrhau'r cyflenwad priodol o bobl proffesiynol i gwrdd â'r anghenion presennol ac ar gyfer y dyfodol

Cwestiwn 65 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi cyfeirio'n benodol atynt, nodwch nhw fan hyn.